

Atodiad 2

Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda Chyngor yr Ysgol a disgyblion blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Dolau.

Dydd Iau 18 Hydref 2018 am 2:00pm

Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i sefydlu darpariaeth addysg gynradd ar gyfer datblygiad tai Llanilid

Yn bresennol

Julie Hadley, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion

Nicola Goodman, Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

72 o ddisgyblion (14 o Gyngor yr Ysgol a dosbarthiadau blwyddyn 6 o'r ffrydiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg).

Nododd Julie Hadley (JH) y cynigion a gofyn i'r disgyblion a oedden nhw'n gwybod beth oedd y cynnig.

Cwestiwn 1

Rydyn ni'n gwybod y bydd adeilad newydd ac maen nhw'n ei drafod e heno.

Eglurodd JH y broses ymgynghori. Os caiff y penderfyniad ei gymeradwyo gan y Cabinet yna bydd yr adeilad yn cael ei ddylunio a'i adeiladu. Mae cwestiynau gan y plant yn cael eu gwahodd.

Cwestiwn 2

Fydd unrhyw adeiladau yn cael eu tynnu oddi ar y safle?

JH

Na fydd

Cwestiwn 3

Beth fydd yn digwydd i'r adeilad yma?

JH

Does dim cynlluniau i newid yr adeilad yma. Rydyn ni'n ceisio adeiladu ysgol sy'n ddigon mawr i ymdopi â'r holl dai newydd, a bydd yn adeilad ar wahân ar y safle.

Cwestiwn 4

Fydd technoleg yn yr ysgol?

JH

Rydyn ni'n gobeithio felly. Persimmon fydd yn adeiladu'r ysgol ac yna, byddan nhw'n ei throsglwyddo i ni.

Cwestiwn 5

Fydd yr hen adeilad yn cael ei anghofio?

JH

Na fydd, mae hwnnw'n adeilad rhestredig sy'n golygu bod yn rhaid inni ofalu amdano a'i ddiogelu. Bydd yn rhan o'r ysgol o hyd.

Cwestiwn 6

Pa mor hir y bydd y gwaith adeiladu yn ei gymryd?

JH

Rhyw flwyddyn siwr o fod.

Cwestiwn 7

Fyddan nhw'n cael cinio yn yr adeilad yma neu yn yr adeilad arall?

JH

Byddan nhw'n cael cinio yn yr adeilad newydd.

Cwestiwn 8

Pryd byddwch chi'n dechrau adeiladu?

JH

Gobeithio, yr haf nesaf.

Cwestiwn 9

Beth fydd yn digwydd i'r anifeiliaid yn y goedwig?

JH

Byddwn ni'n sicrhau bod gan yr anifeiliaid gartref.

Cwestiwn 10

Ydych chi wedi bod heibio'r ffens wifren?

JH

Ydw, byddai ffens newydd yn cael ei ychwanegu i wneud lle i'r adeilad ysgol newydd.

Cwestiwn 11

Fydd gyda ni flychau di-wifr yn ein hysgol newydd?

JH

Bydd rhaid inni weld beth fydd yr adeiladwyr yn ei wneud gyda'r adeilad.

Cwestiwn 12

Sut byddwn ni'n talu am yr athrawon newydd?

JH

Mae'r gyllideb ar gyfer staff yn dibynnu ar nifer y plant yn yr ysgol.

Cwestiwn 13

Faint fydd yn ei gostio i'w hadeiladu?

JH

Dros £5 miliwn siwr o fod.

Cwestiwn 14

A fydd llwybr yn cysylltu'r adeiladau?

JH

Bydd, bydd llwybr yn cysylltu'r adeiladau.

Cwestiwn 15

Fyddwn ni'n cael neuadd ymarfer corff newydd?

JH

O bosibl, ond mae'n debygol y bydd manau chwarae awyr agored newydd.

Cwestiwn 16

Fydd y larymau tân yn cael eu cysylltu rhwng yr adeiladau?

JH

Bydd systemau tân wedi'u gosod ym mhob adeilad.

Cwestiwn 17

Sawl dosbarth fydd yn cael eu dysgu yn yr adeilad newydd?

JH

Dw i ddim yn siwr. Mr Evans fydd yn penderfynu hynny.

Cwestiwn 18

Beth yw'r adeiladau pinc ar y map?

JH

Grwpiau o dai yw'r rheina. Nid dyma'r cynlluniau swyddogol ar gyfer yr ysgol. Dim ond i ddangos i chi beth allai ddigwydd os bydd hyn yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet yw'r rhain.

Cwestiwn 19

Ble byddwn ni i gyd yn mynd yn ystod yr egwyl?

JH

Bydd ardal chwarae fwy o faint rhwng y ddau adeilad. Efallai y bydd cae chwarae o wair ac efallai Ardal Gemau Aml-ddefnydd.

Cwestiwn 20

Fydd yr adeilad newydd ar gyfer y cyfnod sylfaen neu'r adran iau?

JH

Bydd yr adeilad yn addas ar gyfer y ddau.

Cwestiwn 21

Fydd rhagor o draffig?

JH

Bydd. Rydyn ni'n mynd i ofyn am le i ollwng plant wrth yr ysgol.

Cwestiwn 22

Beth fydd yn digwydd i'r ardal natur?

JH

Efallai y bydd rhaid symud peth ohono i fan arall i wneud lle ar gyfer llwybr sy'n cysylltu'r ddau adeilad. Fydden ni ddim yn cael gwared arni gan ein bod ni i gyd yn gwybod pa mor bwysig y mae'r man gwyrdd i'r ysgol.

Cwestiwn 23

Fyddai hon yn troi'n ysgol uwchradd?

JH

Na fyddai. Dros ychydig o flynyddoedd, bydd rhagor o ddisgyblion yn llenwi'r ysgol yma a bydd y lleoedd dros ben wedi'u llenwi. Yn y pen draw bydd y ddau adeilad yn llawn disgyblion oedran cynradd.

Cwestiwn 24

Fydd pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol honno?

JH

Na fydd. Bydd Mr Evans yn bennaeth ar y ddau adeilad o dan un ysgol sef Ysgol Gynradd Dolau.

Cwestiwn 25

Pa mor hir fyddai'n ei gymryd i gerdded o'r adeilad yma i'r llall?

JH

Byddai'n bum munud ar y mwyaf.

Cwestiwn 26

Fydd modd i Flwyddyn 6 ymweld â'r adeilad?

JH

Efallai.

Cwestiwn 27

Fydd lle i gadw offer chwarae awyr agored?

JH

Rydyn ni'n gobeithio felly.

Cwestiwn 28

Fydd pynciau gwahanol yn cael eu dysgu yno?

JH

Na fydd, bydd yn dal i fod yn rhan o Ysgol Gynradd Dolau fel mae eich dosbarthiadau nawr.

Cwestiwn 29

Sut bydd y bysiau yn cyrraedd yr ysgol?

JH

Bydd hynny'n dibynnu ar ddyluniad yr ystâd o dai. Ond, bydd man gollwng ar safle'r ysgol.

Cwestiwn 30

Fydd y Saesneg a'r Gymraeg ar wahân yn yr adeiladau?

JH

Mr Evans a'r llywodraethwyr fydd yn penderfynu hynny.

Cwestiwn 31

Sut bydd yr ysgolion cyfun lleol yn ymdopi â'r cynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau?

JH

Bydd y ffrwd Gymraeg yn iawn gan fod digon o le yn Llanhari. Bydd angen inni edrych ar y ffrwd Saesneg a gweld beth yw'r ateb gorau i sicrhau bod digon o le i bawb.

Cwestiwn 32

Fyddwch chi'n newid logo neu fasgot yr ysgol?

JH

Na, fydd y rheina ddim yn newid. Ond penderfyniad yr ysgol fydd hynny ar unrhyw adeg.

Cwestiwn 33

Fydd pwll newydd?

JH

Na fydd. Dydyn ni ddim yn cynnwys pyllau yn ein hysgolion ragor oherwydd ei bod hi'n ddrud i'r ysgolion eu cynnal.

Cwestiwn 34

Beth am y plant anabl sy'n symud i'r ardal?

JH

Bydd yr adeilad yn addas ar gyfer unrhyw un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cwestiwn 35

Faint o blant fydd yn yr ysgol?

JH

Bydd 540 o lefydd newydd yn yr ysgol.

Cwestiwn 36

Fydd y biliau yn filoedd o bunnau?

JH

Dw i ddim yn gwybod. Ond yn bendant, bydd cyllideb yr ysgol yn ddigon i dalu am y biliau.

Cwestiwn 37

Ble byddwn ni'n cynnal y Ffair Haf a'r Ffair Calan Gaeaf?

JH

Yr ysgol fydd yn penderfynu hynny.

Cwestiwn 38

Fydd yr ysgol o ddyluniad mwy modern?

JH

Mae'r bloc newydd rydyn ni'n eistedd ynddo nawr yn fodern iawn. Mae'n siŵr bydd hi'n debyg i'r bloc yma.

Cwestiwn 39

Fydd rhaid i ddisgyblion dalu rhagor am deithiau ysgol?

JH

Na fydd

Cwestiwn 40

Sawl adeiladwr fydd yna?

JH

Llawer iawn gobeithio.

Cwestiwn 41

Bydd Llanharan yn troi'n lle mawr. Fydd swyddogion yr heddlu a gorsafoedd tân ychwanegol?

JH

Y gwasanaethau hynny fydd yn gwneud y penderfyniad hwnnw.

Cwestiwn 42

Pa mor fawr fydd yr ardal dai newydd?

JH

Gallwch chi edrych ar y map ar y bwrdd i weld rhai syniadau am ddyluniadau a nifer y tai.

Cwestiwn 43

Pam na fydd yr ysgol yn ysgol gyfun?

JH

Mae llefydd ar gael mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae angen inni sicrhau bod digon o le i ddisgyblion oedran cynradd.

Cwestiwn 44

Allwn ni gael bechgyn mewn un bloc a merched yn y llall?

JH

Mae'n annhebygol y bydd hynny'n digwydd, ond Mr Evans fydd yn penderfynu hynny.

Cwestiwn 45

Beth fydd yn cael ei adeiladu drws nesaf i Greggs?

JH

Tai.

Cwestiwn 46

Sawl tŷ newydd fydd yna?

JH

1800

Cwestiwn 47

Fyddwn ni'n rhannu iardiau?

JH

Byddwch. Bydd lle 'awyr agored' llawer mwy o faint i chi'i rannu.

Cwestiwn 48

Fydd yr ysgol yn cael ei chloi fel na fydd modd i bobl ddod i mewn?

JH

Bydd. Bydd y safle cyfan yn ddiogel.

Cwestiwn 49

Beth os oes gormod o ddisgyblion yno?

JH

Bydd y safle yn fwy a bydd digon o le yn yr adeiladau ac ar yr iard i bob disgybl i ddysgu a chwarae.

Cwestiwn 50

Fyddwch chi'n lefelu'r cae chwarae o wair?

JH

Byddwn. Hoffen ni iddo fe fod yn wastad.

Cwestiwn 51

Sut bydd y ceir yn cyrraedd yr ysgol?

JH

Bydd ffyrdd newydd yn cael eu hadeiladu yn rhan o'r datblygiad tai.

Cwestiwn 52

Pa mor hir y bydd y broses dylunio yn ei gymryd?

JH

Rydyn ni'n gobeithio y byddan nhw'n dechrau adeiladu yr haf nesaf.

Cwestiwn 53

Fydd digon o fysiau a meysydd parcio?

JH

Bydd man codi a gollwng, a diogelwch yw ein blaenoriaeth ni. Bydd modd i chi fynd ar y bysiau a dod oddi arnyn nhw yn ddiogel.

Cwestiwn 54

Fydd lle i barcio beiciau?

JH

Mae'n debygol y bydd cysgodfa beiciau - rydyn ni'n eu rhoi nhw yn y rhan fwyaf o ysgolion - ac efallai llwybr seiclo hefyd.

Cwestiwn 55

Fydd cae chwarae newydd?

JH

Bydd, bydd Ardal Gemau Aml-ddefnydd a chae chwarae o wair i bob disgybl eu defnyddio.

Cwestiwn 56

Fydd dwy feithrinfa? Mae dwy ar gyfer pob dosbarth yn barod.

JH

Efallai. Mr Evans fydd yn penderfynu hynny.

Cwestiwn 57

Sawl coeden fydd yna?

JH

Dydw i ddim yn siŵr sawl un yn union ond fyddwn ni ddim yn cael gwared arnyn nhw i gyd.

Cwestiwn 58

Sawl aelod o staff fydd yna?

JH

Bydd nifer y staff yn dibynnu ar nifer y disgyblion.

Cwestiwn 59

Fydd trac rhedeg?

JH

Dydy hynny ddim yn debygol.

Cwestiwn 60

Fydd ystafell staff?

JH

Bydd.

Cwestiwn 61

Ai Persimmon fydd yn ei hadeiladu?

JH

Ie, a'r tai o'i hamgylch.

Cwestiwn 62

Beth fydd yn digwydd os oes argyfwng mewn un adeilad?

JH

Bydd yr adeilad yn cael ei wacáu a bydd y gwasanaethau brys yn cael eu galw.

Cwestiwn 63

Chi adeiladodd yr ysgol yma?

JH

Ie. Y Cyngor wnaeth y trefniadau i adeiladu'r estyniad rydyn ni'n eistedd ynddo.

Cwestiwn 64

Beth am y neuadd chwaraeon? Ydy hi'n enfawr?

JH

Mae adeilad cymunedol yn y cynlluniau ond dydyn ni ddim yn siwr pa fath o gyfleusterau bydd y rhain. Persimmon fydd yn penderfynu a fydd yr adeilad yn rhan o'r ysgol neu beidio.

JH

Diolch am eich cwestiynau a'ch sylwadau.

DIWEDD

**Nodiadau cyfarfod a gynhaliwyd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd
Dolau**

Dydd Iau 18 Hydref 2018 am 3:45pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i sefydlu darpariaeth addysg gynradd ar
gyfer datblygiad tai Llanilid**

Yn bresennol

Andrea Richards, Pennaeth rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Julie Hadley, Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion

Nicola Goodman, Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

28 o aelodau o staff yr ysgol a'r corff llywodraethu

Cyflwyniadau gan swyddogion y Cyngor.

Croesawodd Andrea Richards (AR) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

Yr angen i'r Cyngor sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw, yn enwedig mewn ardaloedd lle bu adeiladu tai helaeth, megis 'coridor yr M4' a Llanharan yn benodol.

Eglurodd AR fod y cynnig yma'n golygu creu ysgol gynradd newydd sbon y mae'n ofynnol iddi ddarparu ar gyfer datblygiad tai mawr o 1,850 o gartrefi y bwriedir ei adeiladu ychydig y tu cefn i Ysgol Gynradd Dolau, sef safle glo brig Llanilid. Yn rhan o amodau'r caniatâd cynllunio, mae'r adeiladwyr tai, Persimmon, wedi gofyn a gân

nhw adeiladu'r ysgol newydd, a fydd yn cael ei throsglwyddo i'r Cyngor ar ôl ei chwblhau. Bydd hynny'n cyd-fynd â chwblhau'r 299 o dai.

Bydd gan yr adeilad ysgol newydd lefydd i hyd at 540 o ddisgyblion (gan gynnwys 60 o lefydd meithrin). Yn y lle cyntaf, y bwriad yw ei hagog fel estyniad o Ysgol Gynradd Dolau a bydd y ddwy ysgol yn rhannu Pennaeth, uwch reolwyr, staff a llywodraethwyr. Bydd yr ysgol yn un sy'n cynnig addysg yn y ddwy iaith a bydd rhieni yn cael dewis drwy gyfrwng pa iaith yr hoffon nhw i'w plant gael eu haddysg. Bydd y Pennaeth a'r llywodraethwyr yn penderfynu pa ddisgyblion fydd yn cael eu trosglwyddo i'r adeilad newydd, ond mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y ffrwd cyfrwng Cymraeg yn cael ei haddysgu mewn un adeilad a'r ffrwd cyfrwng Saesneg yn y llall. Bydd llefydd dros ben yn y ddau adeilad i gychwyn ond bydd y rhain yn cael eu defnyddio wrth i ragor o dai newydd gael eu meddiannu. Y bwriad yw y bydd yr adeilad newydd yn dod yn ysgol ar wahân ar ôl i'r tai newydd i gyd gael eu cwblhau. Bydd cyfrwng iaith y ddwy yn cael ei benderfynu wedyn. Pwysleisiodd AR safonau uchel Ysgol Gynradd Dolau.

Cyfeiriodd AR at y dogfennau ymgynghori manwl sy'n amlinellu'r union resymau dros y broses ymgynghori yma, ac yn darparu gwybodaeth bellach am yr ysgol, megis niferoedd disgyblion, gwybodaeth am gyflwr yr adeilad ac ati. Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch lle dylid anfon sylwadau ysgrifenedig ac mae'n cynnwys holiadur y gall unigolion ei lenwi os ydyn nhw'n dymuno.

Eglurodd AR y byddai'r cwestiynau / sylwadau / ymatebion yn cael eu cofnodi i'w cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori a fyddai'n cael ei fwydo yn ôl i'r Cabinet ym mis Ionawr 2019, ac adborth gan ddisgyblion yn yr un modd. Pwysleisiodd AR mai cyfnod ymgynghori oedd hwn a phe bai'r cynigion yn mynd ymlaen i'r cam nesaf (hysbysiad statudol), byddai gwrthwynebiadau yn cael eu derbyn a'u cofnodi ar y cam hwnnw.

Amlinellodd AR y broses ymgynghori lawn, fel a ganlyn:-

- Yr ymgynghoriad cychwynol yma;
- Adroddiad arall ar gyfer aelodau etholedig a pharatoi adroddiad ymgynghori, a fydd yn cael ei gyhoeddi hefyd;
- Os yw aelodau etholedig yn cytuno i fwrw ymlaen, bydd hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi. Mae hyn yn caniatáu cyfnod statudol o 28 diwrnod o ymgynghori, lle gall unrhyw un sydd â diddordeb wneud sylwadau, neu godi gwrthwynebiadau;

- Yn dilyn y cyfnod o 28 diwrnod, bydd adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r aelodau etholedig, ynghyd ag adroddiad gwrthwynebiadau eto sydd raid ei gyhoeddi.
- Ar ôl hynny, bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r cynnig.

Gan ddibynnu ar ddeiliant y broses ymgynghori a'r cynnydd o ran adeiladu'r cartrefi newydd, rhagwelir y bydd yr ysgol newydd yn barod erbyn mis Medi 2020 ond mae'r union ddyddiad yn anhysbys ar hyn o bryd oherwydd bod hynny'n destun amserlenni adeiladu tai sydd y tu allan i reolaeth y Cyngor.

O ran staff, y disgwyl yw na fydd effaith o gwbl ar y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau. Wrth i'r ysgol dyfu mewn maint dros y blynyddoedd sydd i ddod, bydd angen staff ychwanegol. Felly, bydd gofyn i'r Pennaeth a'r corff llywodraethu adolygu strwythur staffio'r ysgol yn gyson.

Eglurodd AR mai pwrpas y cyfarfod oedd ceisio barn ar y cynnig sy'n cael ei gyflwyno.

Yna, cafodd cwestiynau eu gwahodd.

Sylw

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddwy ysgol ar wahân. Beth fyddai'n digwydd pe bai'r Cyngor yn penderfynu ei gwneud hi'n 'ysgol bob oed'?

Ymateb

Y bwriad yw defnyddio Ysgol Gynradd Dolau fel ysgol gynradd enghreifftiol, gan ei bod hi'n ysgol dda iawn. Gall staff a llywodraethwyr lunio'r ysgol yn y dyfodol. Y bwriad yw adeiladu nifer fawr o dai a byddai angen hyd yn oed mwy o lefydd ysgol pe bai hyn yn digwydd. Byddai angen ymgynghoriad arall cyn y byddai ysgol bob oed yn cael ei chreu - (3-16 oed neu 3-19 oed).

Sylw

Mynegwyd pryder ynghylch 1,000 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae ysgolion cynradd yn ymwneud ag ysgolion cymuned / llai lle mae athrawon yn gwybod enwau'r disgyblion.

Ymateb

Ar ôl i'r ysgolion gael eu sefydlu, y bwriad yw eu rhannu. Bydd hyn yn destun ymgynghori pellach ar yr adeg berthnasol. Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn gwybod sawl disgybl fydd yna yn sgil adeiladu'r tai newydd a pha iaith byddan nhw'n ei dewis. Felly, y bwriad yw agor yr adeilad newydd o dan ymbarél Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf.

Sylw

Os yw'r ysgol yn gweithredu'n iawn, efallai na fydd y Cyngor am rannu'r ysgol a gwario arian ar Bennaeth newydd / ychwanegol.

Ymateb

Bydd yr ysgol yn cael ei hariannu'n briodol wrth i'r niferoedd dyfu. Y corff llywodraethu fydd yn pennu'r strwythur staffio. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol fawr. Mae ysgolion cynradd eraill yn Rhondda Cynon Taf sydd â thros 500 o ddisgyblion. Mae rheolaeth ariannol well mewn ysgolion mwy, ond mae'r pryderon sydd wedi'u mynegi wedi cael eu nodi. Mae staff da iawn yn yr ysgol ar hyn o bryd, felly fydd dad-bersonoli ddim yn digwydd.

Sylw

Mae'r cynnig presennol (sef agor estyniad i Ysgol Gynradd Dolau) i'w ddeall, gan nad oes modd rhagweld nifer y disgyblion ar hyn o bryd a gallai gwahanu yn y dyfodol gael ei ragweld - mae'n dda cael y dewis.

Sylw

Un pwynt o eglurhad sydd eisiau ei wneud mewn perthynas â'r datganiadau agoriadol - mae'r tai a'r buddsoddiad yn yr ardal yn dod oherwydd y Cyngor, nid yr M4.

Cwestiwn

Mae cae 3G yn yr ysgol newydd ym Mhen-coed. A fyddai modd trafod hyn gyda'r datblygwyr?

Ymateb

Does dim modd addo hyn, ond byddai modd ei drafod gyda'r datblygwyr. Mae dau gae chwarae yn cael eu darparu yn rhan o'r adeilad newydd - dydy arwynebau'r rhain ddim wedi cael ei benderfynu hyd yma.

Cwestiwn

Y cyfeiriad at ddemograffig yr ysgol (h.y. cyfrwng Cymraeg neu Saesneg) yn y dyfodol a wneir gan lywodraethwyr - a fydd y Cyngor neu Lywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad ar hyn?

Ymateb

Yn y pen draw, penderfyniad y llywodraethwyr yw hyn. Serch hynny, byddai'r corff llywodraethu yn cael ei gefnogi'n briodol gan y Cyngor. Bydd yr adeilad presennol hefyd yn parhau i dderbyn buddsoddiad.

Cwestiwn

Gaiff staff yr ysgol gyfle i roi sylwadau ynglŷn â'r adeilad newydd?

Ymateb

Mae Persimmon (y datblygwr tai) eisoes wedi cael gwybodaeth ynglŷn â nifer y llifydd fydd eu hangen mewn ysgol o'r maint yma. Unwaith y bydd eu cynigion yn cael eu derbyn, bydd y Cyngor yn eu hadolygu ac yn ymgynghori â'r ysgol.

Mae cais caniatâd cynllunio wedi'i gyflwyno ar gyfer adeiladu'r tai. Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd y gwaith adeiladu yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

Dyma'r tro cyntaf i ysgol Cyngor gael ei hadeiladu gan ddatblygwr. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â staff yr ysgol maes o law, gan mai nhw yw'r ymarferwyr.

Sylw

Mae'r adeilad newydd yn gyfle i fentrau newydd, er enghraifft, gorsaf radio, ystafelloedd arbenigol i roi'r ysgol ar y map o ran y cwricwlwm newydd.

Ymateb

Mae angen i'r adeilad fod yn arloesol ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae angen sicrhau bod modd i'r adeilad gyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Cwestiwn

Oes unrhyw gynlluniau ar gyfer datblygu unrhyw un o'r ysgolion uwchradd yn yr ardal?

Ymateb

Rydyn ni'n trafod hyn - rydyn ni'n ystyried adeiladu estyniadau ac yn cynnal trafodaethau gyda Phencoed / Pen-y-bont ar Ogwr. Mae lle i ddisgyblion ysgol uwchradd sydd angen addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanhari. Serch hynny mae nifer y llefydd ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion ysgol uwchradd yn broblem.

Sylw

Efallai y bydd y mwyafrif o bobl sy'n symud i'r datblygiad newydd eisiau addysg cyfrwng Saesneg.

Ymateb

Dydy hi ddim yn bosibl rhagweld y dyfodol, ond fe fyddwn ni'n dod i ben â phethau wrth iddyn nhw ddatblygu. Yn ogystal â hynny, targed Llywodraeth Cymru yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i dros filiwn erbyn 2050 a fydd efallai yn effeithio ar hyn. Serch hynny, yn y pen draw, y rhieni sy'n dewis iaith addysg eu plant.

Sylw

Mae angen edrych ar yr adeiladau yn Ysgol Llanhari i ddenu rhagor o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg.

Ymateb

Mae'r Cyngor yn frwd dros fuddsoddi ac wedi buddsoddi dros £200 miliwn mewn adeiladau ysgol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Rydyn ni'n effro i'r sefyllfa yn Ysgol Llanhari (adran uwchradd) a byddwn ni'n delio â hi maes o law. Mae'r adran gynradd yn wych.

Sylw

Efallai bydd yn well gan rai rhieni addysg ddwyieithog a rhai eraill, addysg Gymraeg, ond does dim modd rhagweld hyn.

Sylw

Ceisiadau meithrin - oes modd ystyried y rhain ar draws y ffin?

Ymateb

Does dim darpariaeth drawsffiniol ar gyfer addysg feithrin gan mai Cyngor Rhondda Cynon Taf sy'n talu am hyn ac nid Llywodraeth Cymru. Felly, mae addysg feithrin ar gael i drigolion Rhondda Cynon Taf yn unig. Roedd hyn yn rhan o doriadau'r gyllideb a gafodd eu rhoi ar waith a dydy hi ddim yn deg i drigolion ar draws ffin elwa ar gyllidebau Cyngor Rhondda Cynon Taf.

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn adolygu eu darpariaeth feithrin ar hyn o bryd ac mae problemau eraill sy'n ymwneud â ffiniau yn Ffynnon Taf ac ati.

Mae disgyblion ysgol uwchradd sy'n mynychu ysgolion ar draws y ffin yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Cwestiwn

Bydd 299 o dai yn cael eu hadeiladu cyn i'r ysgol agor - ble bydd y plant yma'n mynd?

Ymateb

Efallai y bydd angen darparu llefydd dros dro mewn dosbarthiadau symudol am gyfnod byr a chynyddu nifer derbyn yr ysgol yn unol â hynny.

Cwestiwn

Un broblem i'w hystyried yw materion parcio. Rwy'n effro i'r ffaith bod hyn yn broblem ym mhob ysgol, ond oes modd cynnwys manau gollwng?

Ymateb

Mae'r Prif Weithredwr wedi awdurdodi asesiadau effaith traffig. Bydd modd ystyried y rhain yn y trafodaethau gyda Persimmon. Serch hynny, does dim modd rheoli ymddygiad dynol.

Bydd y sefyllfa o ran traffig yn cael ei hadolygu ar y safleoedd ysgol newydd bwriadedig a'r rhai presennol. Mae gan y Cyngor rywfaint o dir hefyd a all gael ei ddefnyddio yn fan gollwng ac ati.

Cwestiwn

Fyddai gan yr adeilad newydd gegin a manau ategol ar wahân ac ati?

Ymateb

Yn bendant, byddai angen i hyn gael ei ystyried.

Cwestiwn

Fyddai rhagor o ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig?

Ymateb

Byddai, mae cynhwysiant yn hollbwysig. Mae pob adeilad ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac ar gael i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sydd â phroblemau symudedd, golwg neu glyw.

Sylw

Gyda dau adeilad ysgol, mae angen lle i'r holl staff ddod at ei gilydd.

Ymateb

Bydd neuadd arall yn yr adeilad newydd.

Sylw

Dywedodd y Pennaeth y byddai staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Dolau yn sicrhau mai dyma'r ysgol orau yn y DU (nid dim ond RhCT) ac maen nhw'n gyffrous iawn gan y cam nesaf.

Diolchodd AR i bawb am eu presenoldeb a'u mewnbwn ac annog pawb a oedd yn bresennol i gysylltu â'r Cyngor gydag unrhyw sylwadau neu bryderon eraill. Pwysleisiodd mai bwriad y Cyngor yw darparu cyfleuster newydd gwych.

Cafodd dau glip fideo eu chwarae o ddwy ysgol sydd newydd eu hadeiladu yng Nghwmaman a Thonyrefail yn rhan o Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.35pm.

Ymgysylltiad Llanilid - digwyddiad cyhoeddus 18.10.18

Rhowch eich sylwadau i ni, da chi.

- Cynnydd gwych, ond ystyriwch 'gyfleoedd chwarae' ar gyfer y cyfnodau y tu allan i'r ysgol drwy gydol y flwyddyn. Clybiau ar ôl yr ysgol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar - Cynllun Datblygu Cymuned Llanharan
- Cyfle da ar gyfer newidiadau newydd
- Oes modd i chi sicrhau nad yw'r man gwyrdd yn cael ei golli ac nad oes unrhyw beth yn cael ei adeiladu yn ardal y goedwig oherwydd bod hyn yn wych ar gyfer addysg plant.
- A finnau'n rhiant ac yn athro, rwy o'r farn bod yr estyniad yma'n rhy fawr ar gyfer ysgol gynradd ac rwy'n poeni am yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar addysg fy mhlant a'r diogelwch.
- Allwch chi sicrhau y bydd digon o ddarpariaeth gofal plant (gan gynnwys gofal plant cyfrwng Cymraeg) yn yr ardal ar gyfer rhieni sy'n gweithio?
- Sut byddwch chi'n delio â'r 299 o gartrefi sydd â phlant cyn i'r ysgol newydd fod yn barod? Mae parcio yn broblem fawr. Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â hyn? Rwy'n poeni y byddai estyniad mor fawr i ysgol gynradd yn effeithio ar y safon.
- Allwch chi sicrhau ein bod ni'n hyrwyddo manteision codi'ch plentyn yn ddwyieithog ymhlith teuluoedd yn yr ardal fel y byddan nhw'n ystyried addysg Gymraeg?
- Ystyriwch fynediad i draffig a manau parcio ar gyfer gollwng/codi plant. Mae eisoes yn hynod o brysur ar Bridgend Road a'r ardaloedd cyfagos.
- Os yw'r ysgol yn cael ei rhannu'n safle Cymraeg a Saesneg, oes modd i chi sicrhau bydd y plant i gyd yn cael yr un cyfleoedd e.e. côr, chwaraeon, Eisteddfod, waeth beth yw eu cyfrwng iaith?
- Coetir!